**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN**

**POLISI TRAFNIDIAETH INTEGREDIG**

**Diben**

1 Diben y papur hwn yw cynghori'r Pwyllgor ar:

- gefndir datblygu polisi trafnidiaeth integredig;
- nod polisi trafnidiaeth y Cynulliad a'r hyn y mae'n ei wneud i gyflwyno integreiddio;
- materion trafnidiaeth a phrojectau penodol sy'n berthnasol i ardal y Pwyllgor; a
- chynlluniau ar gyfer gwaith y Pwyllgor Rhanbarth yn y dyfodol.

**Cefndir datblygu polisi trafnidiaeth integredig**

2 Cyhoeddwyd Papur Gwyn Trafnidiaeth "*A New Deal for Transport – Better for Everyone*" ym mis Gorffennaf 1998 a amlinellodd gynlluniau a pholisïau'r Llywodraeth ar gyfer datblygu a gwella system drafnidiaeth y DU yn y dyfodol. Ategwyd hyn yng Nghymru drwy gyhoeddi Datganiad Polisi Trafnidiaeth Cymru yn yr un mis "*Cludo Cymru i mewn i'r Dyfodol*" a bwysleisiodd y materion hynny yn y prif Bapur Gwyn a oedd yn enwedig o berthnasol a phwysig i Gymru; a thrwy adroddiad ar yr adolygiad ar raglen cefnffyrdd Cymru "*Gyrru Cymru Ymlaen*" sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, fanylion am y prif feini prawf i'w defnyddio wrth asesu'r dewisiadau o ran mynd i'r afael â phroblemau'r rhwydwaith ffyrdd yng nghyd-destun cyffredinol cyflawni ymagwedd integredig ar drafnidiaeth. Mae'r ddau adroddiad Cymreig ar gael ar y Fewnrwyd ac mae copïau ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

3 Ategir yr adroddiadau hyn gan nifer o rai eraill sy'n manylu neu roi golwg ehangach ar bolisi trafnidiaeth. Ceir rhestr o'r rheini yn Atodiad A.

**Nod polisi trafnidiaeth integredig y Cynulliad a'r hyn a wneir i gyflawni integreiddio**

4 Nod polisi trafnidiaeth integredig y Cynulliad yw datblygu system drafnidiaeth sy'n ddiogel, effeithlon, glân a theg, un sy'n cynnwys gwahanol fathau ar drafnidiaeth, yr amgylchedd a chynllunio defnydd tir, ac sy'n integreiddio ac ategu'r nodau polisi addysg, iechyd a chreu cyfoeth. Fel y cyfryw, mae'n rhan o'r polisi ehangach, sef hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

5 Mae gwaith wedi'i wneud, a rhywfaint o gynnydd, drwy ganllawiau a roddwyd i'r awdurdodau lleol ar gyfer paratoi ***Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol***, a thrwy fuddsoddi mewn ymagweddau cydlynol a gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Ond, er mwyn bwrw ymlaen â'r polisi, mae angen troi'r amcanion yn y dogfennau polisi y soniwyd amdanynt uchod yn flaenoriaethau gweithredu eglur. Mae angen ystyried beth yw'r canlyniadau dymunol, sut y gallai polisi trafnidiaeth gyfrannu atynt, a sut y gallai'r Cynulliad sicrhau gwell cynnydd tuag at gael y

cyfraniad hwnnw. O ganlyniad i'r ymateb i ***Gwell Cymru***, mae blaenoriaethau penodol y Cynulliad wedi'u hadolygu a'u derbyn yn gyffredinol mewn Cyfarfod Llawn. Maent yn cynnwys blaenoriaeth i ***ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy a gydlynir yn well er mwyn cefnogi cymunedau lleol a chreu economi ffyniannus.*** Rhaid i unrhyw raglen weithredu fod yn fforddiadwy, rhoi gwerth am arian, a bod yn effeithiol wrth gyflawni'r canlyniadau dymunol a fydd yn sbarduno canlyniadau dymunol eraill (bod yn agored, cynaliadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol a thwf economaidd) gan gydnabod mai cyfrwng yw trafnidiaeth yn hytrach na nod.

6 Bydd cyflawni agenda polisi trafnidiaeth integredig yn gofyn am ymrwymiad a dyfalbarhad yn ogystal â gweledigaeth eglur. Mae terfyn i'r adnoddau sydd ar gael i'r Cynulliad. Yr un yw hanes y prif gyfranddeiliaid eraill: yr awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau a threnau, Railtrack, SUSTRANS, y WDA, y sectorau busnes a gwirfoddol. Nid oes un corff gyda'r pwerau angenrheidiol i gyflawni trafnidiaeth integredig. Mae ymagwedd bartneriaethol felly yn hanfodol os bydd Cymru am gael system drafnidiaeth sy'n deg ac agored i bawb lle bynnag y bônt yn byw a gweithio.

7 Cydnabu cyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd (LlLA) ar 10 Tachwedd fod angen i'r Cynulliad ddatblygu golwg strategol gydlynol ar ei amcanion, gan gadw mewn cof y cysylltiadau â chynllunio defnydd tir, iechyd a pholisïau amgylcheddol, wrth ddatblygu:

**Y rhwydweithiau trafnidiaeth cenedlaethol**

- Rhwydwaith ffyrdd strategol (cefnffyrdd a ffyrdd lleol)
- Rhwydwaith bysiau pellter hir
- Rhwydwaith rheilffyrdd
- Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
- Pegynau llwybrau (porthladdoedd, meysydd awyr, terfynfeydd nwyddau a'r prif gysylltiadau â ffiniau Lloegr ac Iwerddon

**Yr elfennau hynny o drafnidiaeth leol sy'n mynd ar draws ffiniau awdurdodau lleol unigol**

- Cynllun gostyngiadau teithio cenedlaethol
- System wybodaeth ac integreiddio cludiant cyhoeddus genedlaethol
- Lleihau effeithiau traffig ffyrdd
- Annog trosi o gludo nwyddau ar y ffyrdd i'r rheilffyrdd
- Rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol integredig
- Hybu cynlluniau trafnidiaeth a strategaethau beicio a cherdded cenedlaethol

8 Yr oedd y Pwyllgor LlLA hefyd yn enwi meysydd penodol lle bod angen rhagor o waith, sef:

**rhwydweithiau cefnffyrdd a ffyrdd lleol** – canfod y dewisiadau gweithredu a phennu

blaenoriaethau ar gyfer rhwydweithiau eraill yn y gwahanol ranbarthau yng Nghymru a'r tu hwnt i Loegr ac Iwerddon. Mae angen i'r rheini gael eu cydlynu gyda golwg realistig ar y blaenoriaethau am ddatblygu priffyrdd yr awdurdodau lleol er mwyn cyflawni rhwydwaith strategol cydlynol o fewn cyfyngiadau rhagolygon ariannu realistig y tymor hir;

**cyswllt â Chynllunio** – ystyried sut y gallai Cynlluniau Datblygu Unedol a threfniadau cynllunio unigol leihau'r angen am deithio drwy leoli datblygiadau newydd mewn ardaloedd y gellir eu cyrraedd drwy sawl ffordd o deithio; a sut i hybu'r defnydd o ffyrdd amgen o deithio;

**rhwydwaith cludiant cyhoeddus cenedlaethol** – y ffordd orau o ddarparu lefel sylfaenol o wasanaethau i gyrraedd prif ganolfannau â chludiant cyhoeddus am gost isel heb ddefnyddio ceir;

**strategaeth rheilffyrdd** – mae'r swyddogion wedi dechrau archwilio gwasanaethau'r rheilffyrdd presennol, wrth ymgynghori â'r awdurdodau lleol, Railtrack, cwmnïau gweithredu trenau a chyrff eraill â diddordeb. Bydd y gronfa ddata hon yn galluogi'r Cynulliad i ddisgrifio dewisiadau strategol ac ategu ei olwg ar flaenoriaethau buddsoddi yn ogystal â bwydo cylch etholfreinio nesaf yr Awdurdod Rheilffordd Strategol;

**y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** – mae angen cydweithio â SUSTRANS, i benderfynu ar yr hyn sydd i'w wneud yn ogystal â'r mecanweithiau a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn, er mwyn cwblhau gweddill y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a chysylltiadau lleol. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â Llwybrau Diogel i Ysgolion; pecynnau trafnidiaeth integredig o dan y trefniadau Grant Trafnidiaeth; y Strategaethau Beicio a Cherdded Cenedlaethol a hybu Cynlluniau Trafnidiaeth Gwyrdd. Mae'r polisïau hyn yn cysylltu ag agenda iechyd, addysg a chynaliadwyedd y Cynulliad;

**y cynllun prisiau gostyngedig cenedlaethol** – cwblhau astudiaeth o gost cyflawni'r ymrwymiad i bensiynwyr deithio am ddim ar fysiau o fewn tair blynedd a hynny i fwydo i mewn i gylch cyllidebol y flwyddyn nesaf. Mae

Grp Llywio wedi'i sefydlu gan ddod â'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau bysiau at ei gilydd i bennu'r elfennau allweddol y mae'n rhaid eu hystyried;

**lleihau effaith traffig** – Bydd y Pwyllgor LlLA yn ystyried y mater hwn yn fanwl ar 19 Ionawr 2000. Mae gan awdurdodau lleol a'r Cynulliad gyfrifoldebau statudol ar wahân i ystyried effaith traffig a'r angen am dargedau ar gyfer lleihau traffig. Mae angen datblygu'r gronfa wybodaeth fel y gellir ystyried y lefel traffig gyfan, y rhagolygon ac effeithiau traffig ar y cyd â'r goblygiadau ar gyfer datblygiadau cynaliadwy. Rhagwelir y bydd un cyfrwng ar gael, yn amodol ar ddeddfwriaeth sylfaenol, i ddylanwadu ar dwf traffig mewn mannau penodol, sef y per i gyflwyno tâl am ddefnyddio ffyrdd ac am barcio yn y gweithle.

**rhwydweithiau trafnidiaeth integredig** – canfod blaenoriaethau a chanlyniadau rhwydweithiau rhanbarthol, gan ystyried y cyd-destunau lleol gwahanol, a fydd yn cyfrannu at y strategaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae grwpiau ‘trafnidiaeth’ ffurfiol ac anffurfiol o awdurdodau lleol sy’n cwmpasu prif ardaloedd trefol Cymru; SWIFT (Caerdydd a’r Cymoedd); TIGER (Gwent); SWITCH (Penfro, Caerfyrddin, Abertawe a Chastell Nedd Port Talbort); Gogledd Eryri, yn cwmpasu Gwynedd a Chonwy; ac ardaloedd Wrecsam/y Fflint/Caer.

9 Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor LlLA:

- gefnogi cynnig i greu corff i ddilyn yn sgil grp Ymgynghori ar Drafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau bod ystyriaethau trafnidiaeth yn cadw mewn cysylltiad â defnyddwyr a darparwyr ledled Cymru. Cytunwyd y gellid sefydlu **Fforwm Trafnidiaeth** a allai gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, i fod yn seinfwrdd o ran polisi a’i weithredu. Hefyd yr oedd y Pwyllgor o’r farn y byddai’n bwysig cyfarfod â’r Athro Begg, Cadeirydd y Comisiwn Trafnidiaeth Integredig;
- cefnogi datblygu rhwydwaith integredig **gwasanaethau bysiau** pellter hir;
- cefnogi cynnig am asesiad strategol o wasanaethau **trenau**; gwella’r gwasanaethau rhwng y Gogledd a’r De; cyswllt rheilffordd â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd; adfer gwasanaethau trenau ar y lein rhwng Casnewydd a Glyn Ebwy; creu arosfan newydd yn Llanharan; a gwella mesurydd llwytho ar Lein Arfordir y Gogledd;
- croesawu’r gwaith ar y gweill i gyflwyno **teithio gostyngedig i bensiynwyr am ddim**. Yr oedd y Pwyllgor o’r farn y dylai’r cynllun newydd fod ar gael ar draws ffiniau’r awdurdodau lleol; a hefyd y dylid ymestyn y cynllun i dacsis a chynlluniau ceir cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig lle nad oes gwasanaethau bysiau arferol;
- cytuno y dylai’r Cynulliad ddatblygu **targedau lleihau traffig cenedlaethol** a allai fod o gymorth i’r awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu targedau eu hunain; a
- chytuno na ddylid diystyru rhan **cynlluniau ffyrdd**, yn benodol gwelliannau ar raddfa fach a mesurau arafu traffig, wrth fwrw ymlaen â pholisi trafnidiaeth integredig;

**Gweithrediadau’r Pwyllgor Rhanbarth ar gyfer y Dyfodol**

10 Mae’r Pwyllgor LlLA hefyd wedi cytuno y dylid gofyn am sylwadau’r **4 Pwyllgor Rhanbarth** ar faterion traffig yn eu hardaloedd fel rhan o adolygiad polisi cludiant cyhoeddus i’w gynnal yn gynnar yn y Flwyddyn Nesaf.

**Materion penodol trafnidiaeth a phrojectau yn ardal y Pwyllgor**

11 Ceir map yn dangos cynlluniau cefnffyrdd a chynlluniau ffyrdd yr awdurdodau lleol sydd yn ardal y Pwyllgor yn Atodiad B. Ceir nodiadau cefndir byr yn Atodiad C am 3 phrif gynllun cefnffyrdd yn ardal y Pwyllgor, sef deuoli’r A465 o’r Fenni i Hirwaun, Ffordd Liniaru’r M4 o Fagwyr i Gas-bach a’r M4 o Gas-bach i Coryton. Yn Atodiad D mae nodyn cefndir ar y cysylltiadau wyneb arfaethedig â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Mae Atodiad E yn rhoi cefndir y consortia SWIFT a TIGER. Mae’r tabl yn Atodiad F yn dangos gwariant y llywodraeth ganolog ar drafnidiaeth dros y cyfnod o 1996-97 i 1999-00. Mae Atodiad G yn rhestru

cynlluniau ffyrdd awdurdodau lleol a phecynnau a gyflwynwyd ar gyfer cymorth Grant Trafnidiaeth yn 2000-01.

**Y Pwyllgor i Weithredu**

12 Gwahoddir y Pwyllgor i nodi:

- cefndir datblygu polisi trafnidiaeth integredig yng Nghymru (paragraffau 2 a 3 Atodiad A)
- nod polisi trafnidiaeth integredig y Cynulliad a'r hyn sy'n cael ei wneud er mwyn integreiddio (paragraffau 4 i 7)
- barn y Pwyllgor LlLA am feysydd y mae arnynt angen mwy o waith a gweithredu yn y dyfodol (paragraffau 8 a 9)
- rhan y Pwyllgorau Rhanbarth i gyd wrth adolygu cludiant cyhoeddus (paragraff 10); a
- phrif brojectau trafnidiaeth penodol a materion yn ardal y Pwyllgor (paragraff 11 ac Atodiadau B i G)

**Cysyllter â**

13 Denzil Jones, yr Adran Polisi Trafnidiaeth.